**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**30/1/2022**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Dewi Wyn Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

Trafodwyd cais

Yng nghyfarfod arbennig o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn nos Sul 30/1/22, trafodwyd cais NP5/53/576. Cytunwyd i ymateb i gais Parc Cenedlaethol Eryri am sylwadau ar y cais fel a ganlyn:

Er mwyn gallu gwneud penderfyniad aeddfed a chytbwys, cytunwyd i ofyn am **OEDIAD** pellach:

- Gofynnir am gael gweld **data** annibynnol a mesuradwy (asesiad priffyrdd, symudiad traffig, gofod parcio yn Y Bala, a theithio rhwng Llanuwchllyn a'r Bala (ar hyd yr A494 a'r B4403)
- Gofynnir i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wneud **asesiad o effaith** cyffredinol datblygiadau twristiaeth; dymunem gael y cyfle i roi mewnbwn i'r briff ar gyfer asesiad o'r fath.
- **Os gwrthodir cais Cyngor Cymuned Llanuwchllyn am estyniad tan i dystiolaeth a data hanfodol cael eu cyflwyno, taer erfynnir am gyfle i roi barn y Cyngor dros neu yn erbyn y cais, er mwyn cael rhyw ddylanwad ar y broses.**

Sylwadau Cynghorwyr a arweiniodd at y penderfyniad i ofyn am oedi er mwyn derbyn data a gwybodaeth:

Wrth drafod, roedd yr aelodau'n cadw mewn cof fod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd yn y broses ar hyn o bryd o ddatblygu **Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy**. Tybiwyd mai doeth fyddai aros nes bod y Cynllun yn ei le cyn dod i benderfyniad terfynol ar y cais hwn. Awgrymwyd y gallai'r Parc Cenedlaethol wneud defnydd o'r achos hwn wrth lunio'r Cynllun, a chomisiynu asesiad effaith twristiaeth ar gymunedau, iaith, diwylliant ac economi.

Ystyriwyd adroddiadau gan Caulmert ar ran Rheilffordd Llyn Tegid, a'r Asesiad Annibynnol a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Penllyn. Mae'r rhagdybiaethau yn y ddau adroddiad yn croes-ddweud ei gilydd, ac mae gwir angen gwybodaeth, asesiadau a mesuriadau gwrthrychol o *gapasiti* ac effeithiau.

Oherwydd *maint* y cynllun, crybwyllwyd hefyd y posibilrwydd i'r Awdurdod Cynllunio gynnwys cyfyngiadau ac amodau caeth o ran niferoedd, gydag asesiad rheolaidd o'r effaith.

Soniwyd fod cynnydd mewn niferoedd o ymwelwyr i'r ardal yn sgil *covid* wedi bod yn ffenest i'r dyfodol; efallai bod Parc Cenedlaethol Eryri yn ystyried mesurau megis bwcio ar lein, cyfyngiadau ar barcio ac yn y blaen er mwyn rheoli gor-dwristiaeth yn yr ardal.

Nodwyd hefyd bod angen i Rheilffordd Llyn Tegid ystyried ar hyn o bryd i sicrhau fod y profiad o deithio ar y trên bach yn brofiad sydd yn cyfoethogi'r teithwyr (a'r gwirfoddolwyr) o ran ymwybyddiaeth o iaith, hanes a diwylliant Penllyn.

Nodwyd yr angen i gynnal swyddi yn stesion Llanuwchllyn.